



## Yr Amgylchedd

**B**ydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddf yn gweithredu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn yr hirdymor drwy gyfrannu at gyflawni set o "amcanion llesiant". Y Llywodraeth newydd fydd yn gosod yr amcanion hynny.

Yn y cyfamser, mae'r nodau y bu Llywodraeth Cymru'n gweithio tuag atynt yn ystod ei thymor diwethaf wedi'u nodi yn Rhaglen Lywodraethu Prif Weinidog Cymru. Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n cynnwys data ynghylch y cynnydd a wnaed, gan gynnwys ynglŷn a'r amgylchedd<sup>1</sup>.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

- Mae Adroddiad Blyneddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2014)<sup>2</sup> yn dangos, er bod Cymru'n cyflawni'r targed o gwtogi ar allyriadau o 3% y flwyddyn, nad ydym yn gwneud cynnydd digonol i gyflawni'r prif darged o gwtogi ar allyriadau o 40% erbyn 2020, o gymharu â lefelau 1990. Nodir yn yr adroddiad bod allyriadau wedi gostwng 17.9% o lefel 1990. Gan fod 2020 bellach mor agos, bydd angen i allyriadau

ostwng yn gyflymach o lawer os ydym i gyrraedd y targed hwnnw.

- Mae'r Adroddiad yn dangos mai trwy strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff y bu'r cynnydd gorau. Mae hynny wedi gosod Cymru yn y pedwerydd safle drwy Ewrop am ailgylchu, wedi lleihau allyriadau o 20.4% a chreu budd economaidd sylweddol. Rhaid holi pam na ellir sicrhau cynnydd tebyg mewn sectorau eraill. Llwyddodd y rhannau datganoledig o'r sector cyhoeddus, er enghraifft, ond i leihau allyriadau o 3.1% ers 1990, ac amaeth a'r defnydd o dir dim ond o 1.2%.
- Ymhlith pethau eraill, bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau cwtogi ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% erbyn 2050

### Ynni adnewyddadwy

- Mae trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy fel canran o'r holl drydan a gynhyrchir yng Nghymru wedi codi i 10.1% yn 2013 o 2.9% yn 2004<sup>3</sup>.

- Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, cododd y cyfran hwnnw o 11.7% i 32% yn yr Alban ac o 2.1% i 19.7% yng Ngogledd Iwerddon.
- Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi cadw'r cyfrifoldeb am gymeradwyo adeiladwaith ar gyfer cynhyrchu trydan ar y tir uwchlaw trothwy o 50MW, ond mae'r Llywodraeth bellach yn bwriadu codi'r trothwy hwnnw i 350MW. Bydd hynny'n golygu y bydd mwy o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru hyrwyddo ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.

## Llifogydd

Mae llifogydd yn fygythiad mewn llawer rhan o Gymru.

- Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer yr eiddo sy'n swyddogol dan fygythiad gan llifogydd yn fwy na 208,000 yn 2014<sup>4</sup>. Mae'r trychinebau a ddigwyddodd yng Ngwlad yr Haf, Cumbria a Swydd Efrog yn dangos yr hyn a all ddigwydd, a bydd y patrymau glaw mwy dwys a ddisgwylir o ganlyniad i newid hinsawdd yn golygu bod problemau o'r fath yn debygol o ddigwydd yn amlach.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wario £245 miliwn ar amddiffyn rhag llifogydd yn ystod ei thymor presennol, ynghyd â £50 miliwn oddi wrth Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r cyllid hwnnw wedi'i dargedu'n bennaf at adeiladu amddiffynfeydd ffisegol i atal llifogydd ac erydu ar lannau afonydd ac ar yr arfordir. Mae hi hefyd yn allweddol bwysig, fodd bynnag, i arafu llif dwr glaw oddi ar y brynau yn dilyn cyfnodau o law trwm, er enghraifft, drŵy adfer mawnogydd ar dir uchel a phlannu coed ar lethrau cymoedd. Byddai hynny'n gofyn newidiadau sylweddol mewn dulliau ffermio.

## Bywyd gwyllt

Mae adroddiadau megis Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol 2011 yn dangos bod bioamrywiaeth (planhigion ac anifeiliaid) Cymru'n parhau i grebachu ac ni chyflawnodd Cymru ei Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer 2010. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd bioamrywiaeth ar gyrrff cyhoeddus.

## Cwestiynau i ymgeiswyr

1. A ydych yn ymroddedig i gyflawni targed 2020 ar gyfer lleihau allyriadau tŷ gwydr? A ydy hynny'n flaenoriaeth? Os yw'n flaenoriaeth, pa gamau fydddech chi'n eu hargymell i gyrraedd y targed?
2. A ydych am gyflymu datblygiad ynni adnewyddadwy? Sut?
3. A wnaed lleihau'r bygythiad i eiddo gan llifogydd yn ddigon o flaenoriaeth? A ydym wedi taro'r cydbwysedd priodol rhwng adeiladu amddiffynfeydd ffisegol rhag llifogydd a champau ataliol megis sicrhau bod glaw trwm disymwth yn effeithio llai ar ddalgylchoedd afonydd ar dir uchel?
4. Ydych chi'n credu ei bod yn bwysig atal y crebachu ar fywyd gwyllt Cymru? Os felly, sut gall cyrrff cyhoeddus gynorthwyo gyda hynny?

## Cyfeiriadau

- 1 <http://gov.wales/about/programmeforgov/environment/performance?skip=1&lang=cy> (gwelwyd 27 Ionawr 2016)
- 2 <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/2014-climate-change-annual-report/?skip=1&lang=cy> (gwelwyd 27 Ionawr 2016)
- 3 <http://gov.wales/about/programmeforgov/environment/performance?skip=1&lang=cy> (gwelwyd 27 Ionawr 2016)
- 4 <http://gov.wales/about/programmeforgov/environment/performance?code=OU091&lang=cy> (gwelwyd 27 Ionawr 2016)